Gan ſod pedwar mâth o feiau drygionus (neu bechodau) megis yn teyrnaſu yn yr oes breſennol, ſef *Meddwdod, Aflendid, ofer-Dyngu, a Chelwydd*; mi a fyrr-oſodaf allan fel eu *hanſawdd erchyll* hwynt, ſelly y Rhwymedi yn eu herbyn, a'r ymwared oddiwrthynt.

PEN I.

Am Feddwdod.

AM y Pechod hwn o *Feddwdod*, mi a ddangoſaf: 1. *Beth ydyw.* 2. *Ei anſawdd erchyll ef.* 3. *Pa rwymedi ſydd iw arfer o ran ei ochel ef.*

I. *Meddwdod ſydd bechod, trwy 'r hwn mae dynion wrth yſed ſelly yn mynedtros y meſur o angenrhaid ac hyfrydwch goneſt, fel y maent yn ſyſrdanu eu meddyliau ac yn anardymmeru eu Cyrph trwy hynny.* Dyma 'r arwydd arferol ſydd yn gwneuthur rhagor rhwng meſur cyfreithlon ac anghyfreithlon o yfed. Os gwneiff ddŷn mewn neb rhyw fodd yn anghymmwys i gyflawni dledſwyddau ei alwedigaeth, os bydd y meddwl trwy hynny wedi i ſyfrdanu, os bydd yr ymennydd wedi ei anardymmeru, os gwneir y ſynhwyrau yn drymion ac yn hurt, mae yno ormodedd, ſydd yn ei wneuthur yn Feddwdod.

II. *Anſawdd erchyll y Pechod hwn a ymddengys wrth y ffrwythau trîſt, erchyll o hono, y rhai ydynt.*

Yn gyntaf, wedi eu goſod allan yn odidawg gan y Gŵr doeth, *Dihar.* 23. gwers 29, &c. *I bwy y mae gwae? I bwy y mae ochain? I bwy y mae cynnen? I bwy y mae dadwrdd? Ac i bwy y mae gweliau heb achos. i bwy y mae llygaid cochion? I'r neb ſydd yn aros wrth y gwîn; i'r neb ſyad yn ymofyn am wîn cymmyſcedig.* Mi allaf alw y Teſtyn hwn yn *Ddrûch y Meddwon*, ym mha un y gallant weled y gwae a'r gofid ſydd yn eu canlyn. Fel pe dywedaſai *Salomon, Chwychwi y meddwon ydych yn addo i chwi eich hunain lawenydd, digrifwch a diſyrrwch yn eich Cwppanau; ond am un defnyn o'ch llawenydd yna fyd, byddwch ſicer o lawer Galwyn o Fuſſl a wermod, o ofid a gwae yn y bŷd hwn, ac yn y bŷd a ddaw.* Fe geiff pechaduriaid eraill brofi o Gwppan digofaint Duw; ond chwychwi, wedi i chwi brofi a thrôi i fynu gymmaint o Gwppanau diſyrrwch, a gewch yfed gwaelodion Cwppan digofaint a llidiawgrwydd Duw.

Och gan hynny, pa ynfydrwydd ydyw, am fwynhâu ychydig o win neu Gwrw yma, yfed phiolau o ddigofaint Duw, a gorwedd mewn môr o drueni yn dragywydd!

Yn fwy neillduol ffrwythau Meddwdod yw y rhai hyn,

1. Mae yn halogi ac yn diwyno Delw Dduw a'r ddŷn, ac yn ei wneuthur ef yn debyg i'r Anifeiliaid a ddifethir.

2. *Mae yn niweidio corph dŷn, yn peri llawer o glefydau; megis y Dropſi, y Gowt, y Parlys mûd, y Crŷd, Difrawd yr hyn ſydd yn cynnal y bywyd, ymſtammychiad y gwaed:* fel er eu bod yn yfed iechyd, ac yn cymeryd arnynt mae er eu hiechyd y mae, etto yn wir maent yn yfed clefyd; canys pwy ſydd ag amlach wendid a gwrthuni yn eu canlyn? gan bwy y mae wynebau cyfoethoccach, na llygaid cochach, na'r rhai ſy'n hir-aros wrth y Gwin?

3. *Mae yn niweidio eneidiau dynion, gan eu llenwi hwynt o drachwantau bryntion, drewllyd:* Dihar. 23. 33. Fe ddywed *Salomon* wrth y Meddwyn, *Dy lygaid a edrychant ar wragedd dieithr*, hynny yw, ar Butteiniaid; yn arwyddo fod meddwdod yn achos o odineb: Er nad yw'r holl Odinebwŷr yn Feddwon, etto ychydig ſydd o Feddwon heb fod yn Odinebwŷr.

4. *Mae yn niweidiol i amryw nerthoedd yr Enaid*; Canys mae yn pylu'r ſynwyr, yn gwanhâu'r Côf, yn trymhâu yr yſprydoedd, yn boddi'r Farn, yn dŵyn oddiar ddynion arfer eu deall, fel yn fynych nad oes ragor rhyngddynt ag anifeiliaid.

5. *Mae yn tlodi cyfoeth rhai. Y neb a garo win, ni lŷdd cyfoethog.* Dih. 21. 17. *Y meddw a'r glŵth a ddaw i dlodi.* Dih. 23. 21. Mae profiad beunyddol o'r gwirionedd hwn.

6. *Mae yn anghymmhwyſo dŷn i bob gweithred dda, ond yn enwedig i wiliadwriaeth Chriſtianogol*, yr hyn y mae ein Iachawdr bendigedig yn fynych yn ei orchymmyn, a'i Apoſtolion hefyd, trwy'r hyn y dylem fod bob amſer yn barod i ymddangos gerbron Chriſt, pa bryd bynnag y galwo efe ni i'r farn. Am hynny mae Chriſt yn rhag-rybuddio ei holl eiddo ef i *edrych arnynt eu hunain, rhag iw calonnau un amſer drymhâu trwy lothineb a meddwdod rhag dyfod y dydd hwnnw arnynt yn ddiſymmwth.* Luc. 21. 34.

Oh ddŷn anhappus! beth pe delai dydd hwnnw yr Arglwydd arnat yn dy ddull meddw? Nid wyt yn meddwl y cyferfydd Angeu â thi, y goddiwes Barn di y trô neſaf y byddi meddw. Ond beth pe byddai felly? pe cippid ti o'r faingc-gwrw a'th ddŵyn i'r Farn? Oh pa gyfrifa roit ti o honot dy hun i Dduw, pan na adewaiſt it gymmaint o reſwm ag i roi atteb i ddŷn? Gwiliagan

gan hyhny ond ni all hynny mor bôd, oni ddeffrôi yn gyntaf o'tn Feddwdod.

Y Rhwymedi i ochel y Bai hwn ſy'n canlyn.

1. *Mynych goſia pa ſawl gwac erchyll a gyhoeddir yn erbyn y Meddwon, a'r barnedigaethau echryſlon a ſygythir iddynt. Gwae meddwon Ephraim.* Iſai. 28. 1. *Gwae y rhai a gyſodant yn foreu i ddilyn diod gadarn, a arhoſant hyd yr hwyr, hyd oni cynno y gwin hwynt.* Iſai. 5. 11. Nid rhyfedd gan hynny fod yr Apoſtol yn cyd-riſo y meddwon gyda'r rhai *ni chânt etifeddu teyrnas neſoedd.* 1 Cor. 6. 10. ac *Gal.* 5. 21. Ac fe ddywed y Prophwyd, *fod uffern yn ymeangi, ac yn agoryd ei ſafn yn anferth am danynt.* Iſa. 5. 14. Cym'rwch Siampl o'r *gwr goludog meddw*, enaid pa un aeth yn ebrwydd o'r ddaiar i uffern, lle na chafai cymmaint a defnyn o ddwfr i oeri ei dafod yn y fflamm uffernol. *Luc.* 16 24.

2. *Ymſtyriwch ſod Meddwdod yn Fam i'r rhan fwyaf o ffieiddra'r bŷd.* Rhuf. 13. 13. Medd yr Apoſtol, *Rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd, nid mewn cyfeddach a Meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd.* Nodwch gyſſyllteiad geiriau'r Apoſtol, a'r ôl *glothineb a meddwdod* ſe ganlyn *Cydorwedd ac anlladrwydd.* Felly *Lot* yn ei Feddwdod a wnaeth Loſgach a'i ddwy ferched: *Alexander* ni ddarllenwn, yn ei feddwdod, a laddodd ei anwyl Gyfaill *Clitus*, am yr hyn, pan aeth ef yn Sobr, ſe geiſiodd ei lâdd ei hun. Hynod yw'r hiſtori o un a ddymunodd unwaith gael help Diafol i gyflawni ei drachwant. Ond fe ſynnai Diafol iddo wneuthur yn gyntaf un peth wrth ei ddymuniad ef. Beth yw hynny, eb efe? Llâdd dy Dad, ebr Diafol: Mae hynny yn weithred rhŷ greulon, ebr'y Dŷn. Gorwedd gan hynny gyda'th Fam; mae hynny yn annaturiol iawn, ebro'r Dŷn. A feddwi di gan hynny, ebro Diafol? Gwnâf hynny, ebro'r Dŷn. Ac wedi iddo feddwi, fe a halogodd ei Fam, ac a fu lofrudd iw Dâd. Y Defnydd Moeſawl o'r Hiſtori gyſſlybiaethol hon, yw hyn, Na wnâ y Meddwyn ddim o bob math a'r bechod.

3. *Bydd ddyfal a phoenus yn dy Alwedigaeth. Tydi wâs drwg a diog*, medd ein Iachawdr. *Math.* 25. 26. Os diog, drwg yn ddiau: Canys y gwâs ſwrth a dîog ſydd gaeth wâs Satan yr hwn a arwain ef oddiamgylch, ac a'i tywys i bob Gwin-dŷ neu Dafarn-dŷ.

4. *Yſtyria fod llygad Duw, ſy'n gweled y cwbl, arnat ti yn waſtadol, p'le bynnag y byddech.* A ellitti hir-eiſtedd uwch ben dy Gwppanau, yn gwâg-waſtraphu dy amſer gwerthfawr, mewn ymddiddanion ofer diles, pettit ti yn yſtyried o ddifri, fod Duw a'i lygad aanat ti, i'r hwn y bydd rhaid itti un dydd ro'i cyfrif, fel o'th weithredoedd pechadurus, felly hefyd o'th eiriau ofer, ac o'r amſer a gam-dreuliaiſt?

5. *Gochel gwmpeini a chymdeithas y Meddwon.* Dih. 23.20. *Na fydd ym myſg yrhai ſydd yn meddwi a'r win*; hynny yw, Na fydd yn fynych yng nghymdeithas y rhai ſydd yn ymroi i yfed a Diotta. Canys er na chafant di yn debyg iddynt eu hunain, ètto os cymdeithaſu di a hwynt, hwy a'th wnânt di felly.

Mae dau o Reſymmau ſy' nerthol iawn i berſwadio llawer o Feddwon i fyned ym mlaen yn y pechod erchyll peryglus hwn; ond pan bwyſer hwynt ynghlorian y Cyſſegr, f' a'i ceir yn rhŷ yſgafn.

Rheſ. 1. A gymerir oddiwrth obaith o Edifeirwch; maent yn eu twyllo eu hunain a meddwl gwen-ieuthus, y gallant Edifarhâu pan fynnont.

Atteb. 1. *Rhodd Duw yw Edifeirwch, oddiwrth ba un y daw pob rhoddiad daionus a pherffaith.* Jac. 1. 17. Ac am hynny ni a ddylem ei derbyn, pan gynnigier hi ini; ac ni ddylem mor oedi, a bwrw hynny heibio o ddydd i ddydd. Canys fel y mae Duw yn drugarog i gynnig grâs, felly mae yn gyfiawn i goſpi ein heſgeuluſtra o hono.

2. *Pa ſawl ſydd, er iddynt lŵyr-fwriadu Edifarhâu, a throi oddiwrth eu pechodau at Dduw yn eu henaint, neu yn amſer cloſyd, etto a ragflaenwyd, ac a dorrwyd ymaith trwy angeu diſyfyd.* Un treigl meddw all dorri ymaith y gobaith hwnnw.

Rheſ. 2. *A gymerir oddiwrth hîr-amynedd Duw leb eu coſpi hwynt.* Maent yn eu ſiommi eu hunain, ac yn meddwl, am nad yw Duw yn ebrwydd yn tywallt dialedd arnynt am eu Meddwdod, na chânt mo'i coſpi ddim, ac a'r hynny maent yn ymbyfhau i fyned rhagddynt yn eu pechodau, yn ôl gair y gŵr doeth. *Pregeth.* 8. 11.

Ond gwybydded y cyfryw er bod Duw yn hwyrfrydig i wneuther barn a'r ddynion drwg annuwiol, trwy hynny

iw

iw tywys i Edifeirwch; etto diau efe a dâl iddynt yn y diwedd; a ph'yn hwyaf y bo yn rhoi y dyrnod, trymmach a fydd pan ddelo, a dyfnach fydd yr archoll pan darawo. O ran yr hyn y cyffelybir digofaint Duw i Glóch fawr, yr hon y byddis yn hîr yn ei chodi; ond pan goder, hi a ddyry Sŵn mwy.

PEN II.

Am Drythyllwch ac Aflendid, Bai mawr arall i'r hwn mae llawer yn ymroi, ac yn euog o hono.

II. A*M y pechod o Aflendid, mi a ddangoſaſ,*
1. *Ei anſawdd erchyll.*
2. *Y perigl o hono.*
3. *Peth Cymorth yn ei erbyn.*

I. Anſawdd erchyll y pechod hwn a ymddengys.

1. Oddiwrth yr Enwau a roîr iddo yn yr Yſgrythur lân. F'ai gelwir *Scelerder.* Jer. 29. 23. Ie *ffieidd-dra, bryntì* ac *aflendid:* Ond fynychaf f'a'i gelwir yn *ffolineb,* a'r neb a'i gwnelo yn *ffôl ac ynfyd.* Gen. 34. 7. 2 Sam. 13. 13. Dih. 7. 7. Mae *Salomon* yn galw y Puttein-wr ieuangc yn *wirion-ffôl heb ddeall ganddo.* Canys pa ffoledd mwy nag i gyflawni dy chwantau drewllyd, dy daflu dy hun bendramwnwgl i ddrygau aneirif yma, ac a'r ôl hyn i boenau tragwyddol yn nhân uffern?

2. *Oddiwrth yr anwyw ſygythion y rgair Duw yn ei erbyn.* 1 Cor. 6. 9, 10. *Na thwyllier chwi, ni chaiff na godinebwŷr, na thorwŷr priodas, na maſweddwŷr, &c. etifeddu teyrnas Dduw.* Fel pe dywedaſai, mi a wnn y gall llawer yn eich plith eu ſiommi eu hunain, gan feddwl, na fydd Duw, (yr hwn yw Tâd trugaredd) mor dôſt, a'ch taflu a'm y pechod hwn, fydd mor naturiol, i uffern, neu eich câu allan o'r Nefoedd; *Ond,* medd efe, *Na thwyllwch eich hunain, ni chaiff na godinebwŷr, na thorwŷr priodas, na maſweddwŷr, etifeddu teyrnas Dduw;* hynny yw, oni wir-edifarhânt, ac ymadel a'r pechodau hynny. Ac *Eph.* 5. 5. *Yr ydych chwi yn gwybod hyn am bob Puttein-wr neu aflan, nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Chriſt a Duw.* Ac *Datg.* 21. 8. *Puttein-wŷr, a Godinebwŷr a gânt eu rhan yn y llyn ſydd yn lloſgi â thân a brwmſtan.* Fel hyn y gwelwch pa ſygythion erchyll ſydd yn erbyn y pechod hwn y ngair Duw.

3. *Mae y Barnedigaethau mawrion a roes Duw a'r ddynion am y pechod hwn o aflendid, yn dangos mor erchyll ydyw.* Am y Pechod hwn y dûg Duw y Dwfr dilyw a'r yr hén fŷd. *Gen.* 6. 2, 3. Am y pechod hwn y glawiodd Duw Dân a brwmstan a'r *Sodoma* a *Gomorrha.* Gen. 19. 5, 24. Fe welodd Duw yn gymmwys, i'r rhai a ymlosgent â thân Trachwant, gael eu llosgi i fynu a thân ei Ddigofaint ef. Ni ddarllenwn ddarfod i'r pechod hwn dorri i lawr Dair mil a'r hugain o'r *Israeliaid* mewn un dydd. 1 *Cor.* 10. 8. Fel nad oes un pechadur cyndyn, ond y mae Duw yn ei ganlyn ef a'i Farnau; felly mae yn canlyn Putteinwŷr a Godinebwŷr a barnedigaethau rhyfeddol. Bydded y clefyd brwnt rhyfedd sydd mor fynych arnynt, yn Dŷst, yr hwn hyd y dyddiau diweddaraf hyn ni chlywsid mor sôn am dano.

4. *Nid oes un pechod mor union-wrthwynebol i Sanctaiddrwydd a hwn, ac i Sanctaidd yspryd Duw.* Nac un pechod sydd yn ein gwneuthur ni yn debyccach i Ddiafol; yr hwn a elwir yn fynych yn yr Efangylwŷr *yr Yspryd aflan.* Mat. 10. 1. a'r 12. 43. A hynny o herwydd ei fod ef yn mawr-ymhyfrydu mewn aflendid, ac yn ei wneuthur hefyd yn ddiben pennaf iddo ei hun i ddenu ac i dynnu dynion iddo.

II. Fe ymddengys perigl y pechod hwn oddiwrth y ffrwythau trist sydd yn ei ganlyn, y rhai sydd y cyfryw a'r rhai hyn.

1. *Mae yn dwyn barnedigaethau a'r y Corph*, yn destrywio ei iechyd a'i nerth, ac yn ei lenwi a phydredd; ac yn magu llawer o glefydau ni aller byth eu iachau. Dŷn anniwair sydd yn ffos ddrewllyd o bob llygredigaeth, yn gôd o frynti a phydrni, a mwy o glefydau yn ei ganlyn nac un Elusendŷ. Canys y Cysiawn Dduw a ordeiniodd fôd i'r rhai sydd yn hâu i'r cnawd, fedi o'r cnawd Gynhaiaf helaeth o lygredigaeth.

2. *Fel y mae yn peri llygredd yn y Corph, felly hefyd difrawd yn y da a'r golud. Y neb a syddo gysaill i butteiniaid, a ddisa ei dda.* Dih. 29. 3. *Na chwennych gan hynny*, medd *Salamon, Y fenyw ddrwg yn dy galon; canys oblegid y fenyw butteinig y daw dŷn i dammaid o fara.* Dih. 6. 26. Felly bu gyda'r *Mâb afradlon*, cyn gynted ac y syrthiodd i blith putteiniaid, yn ebrwydd efe a warriodd ac a dreuliodd y cwbl a feddai. Pan ofynnodd *Lais* (y buttain enwog honno o *Gorinth*) swmm mawr o arian i *Demosthenes* am gael gorwedd gydâ hi un

nos-

noſwaith, ſe attebodd yn ddoeth, *Na phrynai eſe Edifeirwch mor ddrûd.*

3. *Fel y mae'r Pechod hwn yn treulio'r Corph; ac yn difa'r Da, felly hefyd y dŵg anair gwarthus a'r yr enw, a chywilydd ni ddileir byth.* Canys bydded ei enw priodol beth a fynno, *Puttein-wr* a fydd ei enw cyſſredinol ef. *Dih. 6. 33. Y neb a wnêl odineb ſydd heb ſynwyr, Archoll a gwarth a gaiff eſe,* hynny yw, fe archollir yn ei enw a'i barch, a'r ammarch a ddygodd ef arno ei hunan trwy ei frynti a'i aflendid a erys arno ef.

4. *Mae yn dwyn diniſtr a'r enaid dŷn, gan ei wthio i bocnau tragwyddol yn uffern:* Tân y trachwant ſydd danwŷdd i dân uffern. *Y neb a wnêl odineb a henaw, a ddiſetha ei enaid ei hun.* Dih. 6. 32. hynny yw, Mae yn ei fwrw ei hun bendramwnwgl, enaid a chorph, i'r llyn ſydd yn lloſgi â thân a brwmſtan. Y pechadur, y tan hwnnw oddiſod, er poethed ydyw, a fyddai, pe iawn yſtyrit ef, yn ddigon i oeri y Tân hwn o drachwant. Pan deimlech Drachwant yn lloſgi ynot, yna meddwl am y lloſcfeydd tragwyddol.

Oh gan hynny, wytti yn dy garu dy hun, na dim a'r a feddi? wytti yn caru dy gorph? Oh gochel butteindra ac aflendid, trwy 'r hyn yr wŷt yn pechu yn erbyn dy gorph dy hun, ac wyt yn dwyn diſrod a phydredd arno: wytti yn caru dy Dda? yna gochel butteindra, ſydd debyg i'th adel yn gardottyn. Wytti yn caru dy Enw da? Gochel ef, canys pechod cywilyddus ydyw, ac a ddyry nôd arnati fel un o ynfydion *Iſrael*, ac a wneiff i'th enw di bydru a drewi a'r y ddaiar. Yn ddiweddaf, wytti yn caru dy enaid? Gochel ef, canys hynny a'i dŵg ef i wared i ddyfnder uffern.

III. *Am y Rhwymedi yn erbyn y Pechod hwn,* mae amryw yn yr Yſgrythur lân; mi a ddangoſaf ychydig o'r rhai pennaf.

1. *Gwrthwyneba y Meddyliau trythyll allan, ſydd naill a'i yn codi o'th galon ddrŵg dy hun, neu yn dyfod i mewn oddiwrth Satan.* Na fydd yn eu trôi a'i treiglo yn dy feddwl, ac na âd iddynt letteua ynoti, ond yn ebrwydd bwrw hwynt ymaith, a thafl oddiwrthit trwy ffieidd-dra. Pwy pan daflet tân iw fynwes, na phryſura, cyn gynted ac y gwyppo hynny, iw daflu ef allan? Diffodd y gwreichion hyn yn fuan, rhag iddynt dorri allan yn fflamm, fel na eller mo'i diffoddi.

2. *Bydd wiliadwrus iawn, fel a'r dy ſynhwyrau oddiallan, felly*

yn enwedig ar dy lygaid, y rhai ydynt ddrysau a ffeneſtri'r enaid, i ollwng Trachwant i mewn. A'r hyn ni feiddiai *Fob*, er ei fod yn ŵr ſanctaidd, ac oedrannus, ymddiried iw lygaid ei hun heb gadwraeth arnynt, ond a ymrwymodd mewn Addewid a chyfammod difrifol, na ſafai i lygad-rythu a'r wyneb-prŷd gwraig. *Fob* 31. 1. Fe naccâodd *Alexander* cymmaint ag edrych a'r Wraig *Darius*, Arglwyddes o degwch digymmar, gan ofni, rhag iddo ef, yr hwn a orchfygaſei y Gŵr, gael ei orchfygu gan y Wraig. A'r y perwyl hwn (mae'n debyg) y darfu i *Zeleucus* oſod Cyfraith a'r y *Locrenſiaid*, am dynnu allan llygaid y Godinebwŷr, oblegid pechod a ddaethai i mewn trwy'r dellt hynny; ac am hynny efe a gaûai y ffeneſtri.

Clywch gan hynny y cyngor a roddir ini. *Eccleſ.* 9. 8. *Trô dy olwg oddiwrth wraig brŷd-weddol, ac nac yſtyr degwch arall; oblegid llawer trwy degwch gwraig a gyfeiliornaſant.*

3. *Meddianna dy enaid ag yſtyriaeth ddifrifol o breſennoldeb Duw, pa le bynnag y byddych.* Dyna y Rheſwm y mae *Salomon* yn ei arfer, i droi ymaith yr Ieuangc trythyll oddiwrth ei ymarweddiad allan. *Dih.* 5. 20, 21. *Pa ham fy mâb, yr ymddignifi yn y wraig ddieithr, ac y cofleidi fynwes yr hon nid yw eidioti? Canys ffyrdd dŷn ſydd y ngolwg yr Arglwydd, ac y mae ef yn dal a'r ei holl lwybrau ef.* Er i'r dŷn allan wneuthur y pechod hwn yn ddirgel iawn, ni thycciai hynny iddo ond ychydig. Oſn Duw, yn codi oddiwrth lawn-olwg ei breſennoldeb ef, a attaliodd *Joſeph* rhag gwrando a'r lithiol annogaethau ei Feiſtres. *Pa fodd y gallaſi*, medd efe, *wneuthur y maur-ddrwg hyn, a phechu yn erbyn Duw?* Gen. 39. 9. A wytti yn ddioſn am dy yſpio a'th weled gan lygad dŷn? ekto yſtyria fod llygad Duw arnat ſydd yn gweled y cwbl.

4. *Gochel yr holl foddion, Achoſion, ac Annogaethau i Drachwant ac Aflendid.* Y neb a fynno ochelyd pechod, rhaid iddo ochel ei achoſion ef; os amgen, mae yn temtio Duw iw roddi ef i fynu iddo. Achoſion ac Annogaethau i Drachwant, ſydd lawer.

1. *Llawnder o fwyd a diod; bwytta i lothineb, ac yfed i feddwdod.* Cymedroldeb ydyw y Ceidwad goreu o Ddiweirdeb; felly anghymedroldeb yn bwytta ac yn yfed ydyw mammaeth Aflendid, yr olew ſydd yn peri i'r fflamm gynneu a chwanegu. *Jer.* 5. 7, 8. *Yr oeddynt fel meirch porthiannus y boreu, gweryrent bob un a'r wraig ei gymydog.*

2. *Siarad*

2. *Siarad anllad coegfrwnt ſydd Achos arall, ac Annogaeth i drackwant.* Canys, fel y dywed yr Apoſtol, 1 Cor. 15.33. *Mae ymddiddanion drwg yn llygru moeſau da.*

3. *Lluniau anllad murſennaidd, a'r rhai mae llawer yn karddu, neu yn hytrach yn anharddu eu Tai.* Canys beth ydynt yn wîr, ond Araithwŷr mudion i annog i Aflendid; a ſiamplau bywiol, o'r rhai hawdd y tynn calon drythyll goppi o Aflendid i ſcrifennu a'r ei ól. Gwiliwch gan hynny ddal ſulw a'r Luniau gwamal; yn hytrach trô ymaith dy olwg oddiwrth wagedd twyllodrus ſy 'n llygattynu dynion.

4. *Chwarêuon.* Llawer o'r rhai a lenwir ag ymddidanion bryntion anniwair, ac a oſodir allan trwy lawer o ymddygiad murſennaidd, trwy y rhai mae 'n hawdd llygru y Meddwl â Thrachwant aflan, a pharattôi 'r galon i weithrediadau aflan. Mae 'r Chwareu dŷ yn llattai i'r Putteindŷ.

5. *Rhwymedi arall yn erbyn Trachwantau cnawdol ydyw, bod yn ddyfal ac yn ddiwyd yn dy Alwedigaeth.* Trwy hyn y goſodir corph a Meddwl dŷn a'r waith, ac felly ſe gedwir oddiwrth ſeguryd, yr hyn ſydd yn Achos fawr o Aflendid. Pan yw dynion yn ſegur nid oes ganddynt ddim iw wneuthur, ond pechu; ond pan ſo dynion yn boenus yn eu galwedigaeth, nid oes ganddynt mor amſer i bechu.

6. *Dôs at Ddaw mewn gweddi ddwys galonnog am rym a nerth yn erbyn grym dy drachwantau a'th Lygredigaethau.* Cais ganddo ef ryngu bodd iddo fwrw allan o honotti yr Yſpryd aflan, a'th lenwi di a'i Yſpryd ſanctaidd, i'th nerthu di i ymladd yn erbyn y cnawd ac i farwhâu ac i ddaroſtwng dy holl Anwydau afreolus, a'th ddrwg-wyniau cnawdol.

7. Oni thyccia 'r Moddion hyn, *Arfer yr help o Briodas gyfreitlon. Rhag Godineb, bydded i bob gŵr ei wraig ei hun, a bydded i bob gwraig ei gŵr ei hun.* 1 Cor. 7. 2. Ac gwerſ. 9. *Ond neb ni allo ymgadw, priodant, canys gwell yw priodi, nag ymloſgi.*

PEN III.

Am halog-Dyngu heb achos ſydd Fai mawr arall, y mae llawer yn ymroi iddo.

III. MAe ein Iachawdr yn eglur-warafun y pechod hwn *Math.* 5. 34. *Na thwng ddim,* hynny yw, yn dy ymadrodd cyffredin: *Ond bydded eich ymadrodd, ie, ie; nagê, nagê:*

oblegid

oblegid beth bynnag ſydd tros ben hyn, o'r drŵg y mae, hynny yw, o Ddiafol, yr un drwg hwnnw. *Gwerſ.* 37.

Y Tyngu ofer yma ſydd bechod anweddaidd i bob dŷn mwy o lawer i'r rhai ſydd yn proffeſſu y Grefydd Ghriſtianogol: Canys ſe ddylai y madrodd Chriſtion fod wedi ei dymheru â halen Grâs, ac nid â llyfon halogedig: ſe ddylai fod yn flaſus, yn peri grâs i'r gwrandawŷr, ac nid yn ddiflas yn peri dim ond pechod neu dramgwydd.

Arferol dyngu mewn y madrodd ſydd arwydd eglur o ddŷn halogedig, ni wnâ gydwybod o un pechod; canys pa bechod a ochel efe, yr hwn ni ochel y pechod anſuddiol hwn o dyngu? Mae amryw hudoliaeth a themtaſiwn mewn pechodau eraill i lithio dynion iddynt; rhai trwy fûdd, rhai trwy barch, rhai trwy ddifyrrwch. Ond nid oes dim o hyn yn y pechod hwn o Dyngu. Nid oes ynnill yn y bŷd ynddo, ond colled fawr, ſef colli ffafr Duw, a cholli cydwybod dda. Ac nid oes llawenydd nac hyfrydwch yn y byd ynddo, oddieithr i ddŷn (yn debyg i'r cythrael) gymeryd hyfrydwch yn gwneuthur pechod ac anwiredd. A pha barch a baïr efe oddieithr ym myſg y cyfryw ofer ddynion y rhai y mae eu clòd yn wradwydd? Am hynny mi allaf ddywedyd yn hŷf, *Am y dŷn ni wnâ gydwybod o Dyngu, nad oes clw yn y bŷd yn denu iddo, y gwneiff ef lai cydwybod o beckodau eraill ſydd a themtaſiwnau mwy iddynt, ac yn porthi y peckadur â gobaith o clw trwyddynt.*

Oh y Tyngŵr, gâd imi dy berſwadio i ddwfn-ſtteiddio, ac i ddyfal-wilied ar yr ymarfer drwg, anrheſymmol hwn. Cofia y cyfrif a fydd raid itti roddi i fynu ar y dydd mawr ofnadwy hwnnw. Rhaid itti rôi cyfrif *am bob gair ſegur,* mwy o lawer *am bob llw ofer a gwaedlyd.*

Mi a wnn fod llawer o Eſcuſodion ofer yngeneuau dynion am y peckod hwn, y rhai a gêir yn yſgafn iawn, os pwyſir hwynt ynghlorian y Cyſſegr.

I. Rhai a'i Eſcuſodant eu hunain eu bod yn arfer yn unig mân-lyfon bychain, megis, myn *fy ffydd,* am *gwirionedd,* gan beidio â llyfon mawrion, megis, *Tyngu i enw Duw, &c.*

Atteb. 1. *Mae mân-lyfon yn bechodau.* Mae ein Iachawdr yn eglur yn gwarafun pob mâth a'r lyfon, gan ddywedyd, *Na thyngwch ddim.* Math. 5. 34. Bwriwch nad yw tyngu myn fy ffydd am Gwirionedd yn bechod mor erchyll, a thyngu i Enw Duw, etto mae yn bechod, gan fod Chriſt ei hun wedi ei warafun a'i gondemnio.

2. *Mae*

2. *Mae llyſon bychain yn beckodau mawr. Ni farna Duw y rhai kynny yn ddi-euog.* Bôd yn euog ger bron Duw ſydd yn nodi dau beth.

1. *Bôd tan haeddiant digoſaint tragwyddol.* Trwy dy lyſon bychain yr wyt yn haeddu digoſaint y Duw mawr.

2. *Mae Euogrwydd yn nodi rhwym i ddigoſaint.* Rhwymau ydyw y llyſon hyn, a'r rhai yr wytti yn rhwym i farn y dydd mawr: A phan ofynner itti yno, *Euog, neu Dieuog?* Y rhai hyn yn unig a'th brofant yn Euog.

3. *Mae llyſon bychain yn dwyn pechodau eraill a'r eu hôl.* Fel y mae 'r hwn ſydd yn ymarfer i ddŵyn pethau bychain, yn cael, trwy gyfion farn Duw, ei roddi i fynu i ddŵyn pethau mwy, o nodwydd i geiniog, o geiniog i bunt; felly yr hwn a ymarfero i'r mân-lyſon hyn, a roddir i fynu, trwy gyfiawn farn Duw, i dyngu llyſon erchyll uffernol, yn ddibris o honynt.

II. Rhai a'i eſcuſodant eu hunain, yn dywedyd, Na choelir mo' nynt, oni thyngant, a chadarnhâu eu geiriau â Llŵ.

Atteb. *Llai o lawer y coelir di am dy Lŵ.* Fe ſydd pob gŵr goneſt yn ddiau mwy o lawer yn ammeu gwirionedd geiriau y dŷn hwnnw, ſydd yn eu canlyn hwy a'i Lŵ; Canys y neb ni wnâ gydwybod o Lŵ, a wnâ lai cydwybod o gelwydd.

III. *Rhai a ddywedant ſod llyſon yn harddu eu hymadrodd hwynt.*

Atteb, 1. *Yn union fel y mae Cramen neu loſgiad yn harddwch i'r wyneb.*

2. *Drûd y prynir yr harddwch hwnnw, a gêir, trwy wyſtlo eu heneidiau i Ddiafol.*

IV. Rhai a'i heſguſodant eu hunain trwy ddywedyd, eu bôd yn llŵyr-ffieiddio tyngu ond iddynt gyhyd ymarfer i hynny na wyddant pa fodd i ymadel ag ef.

Atteb. Trwy ddadleu hir-ymarfer, nid wyt yn eſcuſodi ond yn hytrach yn dy gyhuddo dy hun fwyfwy. Nid ymarfer a eſcuſoda 'r lleidr am ledratta, na'r Godinebwr am butteinio, a pha fodd yr Eſcuſoda 'r Tyngŵr am dyngu? Canys pob pechod, pa mwyaf cyffredin a chynnefinol a fo, mwyaf erchyll ydyw, ac iw ffieiddio. Os ydyw tyngu unwaith yn ofer yn bechod, yna mynych dyngu yn arferol, ſydd bechod yn gweiddi ynghluſtiau Duw, ac yn ddiau a dynn a'r ei ôl ddamnedigaeth fwy.

I helpio y rhai ſydd wedi hir-ymgynnefino â thyngu yn eu hymadrodd beunydd dol, mi a róf iddynt yr ychydig Reolau hyn.

1. *Crêd*

1. *Crêd fod dy gyfiwr presennol yn drîst ac yn beryglus iawn, tra fyddych yn byw yn y pechod hwn.* Pa obaith o lechydwriaeth fydd itti, heb wir a difrifol Edifeirwch?

2. *Gwilia yn gaeth a'r dy dafod, fel na throsseddych mwy yn kyn o ran.* Ac os ymgynnefinaist gymmaint ag ef, fel nad oes obaith gennit, y gelli ymadel ag ef a'r unwaith, cais ymadel ag ef bob ychydig ac ychydig. Llwyr-fwriada, pa achos bynnag a fo, i gadw y fâth gadwraeth a'r dy dafod, fel (trwy gymorth grâs Duw) na thyngech ddim tros Yspaid un diwrnod. Ac wedi itti yn hynny gael y maes a'r dy ddrŵg arfer, yno cymer yn wastad amser hwy; ac felly o'r diwedd (trwy gymorth grâs Duw) ti a lwyr-ebargofi dy hên ddrwg arfer.

3. *Dôd o ddifri at dy galon y Barnedigaethau kynny a gyflawnwyd a'r Dyngwŷr, y rhai ydynt lawer a gosidus iawn.* Rhai yn marw a gwrês tanllyd yn eu genenau, fel pe buasai tân uffern wedi ei gynneu yndduynt yn barod. Eraill yn marw â thafodau wedi chwyddo, a'i safnau a'r drô. Duw yn dangos ffieidd-dra eu pechod trwy eu rhyfeddol gospedigaeth.

Mi a ddarllennais am ŵr ieuangc oedd yn Dyngwr hynod arferol a'r bob achos ysgafn i gymeryd enw Duw yn ofer, yr hyn a gyffrôdd yr Arglwydd cym mhelled yn ei erbyn, fel y danfonnodd y fâth ganer iw safn ef, ac a yssodd ei dafod ef, yr offeryn a'r hwn yr oedd ef yn halogi Enw Duw. Mi a gefais hefyd mewn amryw lyfrau son am ŵr ieuangc bonheddig o *Gornwal*, yr hwn ynghwmpeini boneddigion eraill, oedd yn tyngu yn erchyll, am yr hyn beth rhai o honynt a roes senn iddo; ond efe a dyngodd fwyfwy. O'r diwedd, fel yr oeddynt yn myned ar hŷd rhyw Bont yn eu taith, yr hon oedd tros gaingc o'r môr, y Tyngwr hwn a spardunodd ei farch felly, fel y neidiodd ef tros y Bont, ar gâr a'r ei gefn, yr hwn wrth fyned a waeddodd, *Y march a'r dŷn, a'r cwbl i Ddiasol.*

Ti alli dithau ddyfod yma tan y fâth arwyddion hynod o ddial Duw; ond ôh, beth sydd itti iw ddisgwyl a'r ôl hyn? Y llyfon hyn, sydd yn awr yn diflannu wrth eu dywedyd, ac yn myned i'r awyr, a'th gyfarfyddant ti eu gŷd ym mol uffern, ac yno y Saethau hynny a ergydiaist ti yn erbyn y nefoedd, a fyddant oll a'r dân, ac a lynant yn dy galon yn dragywydd.

Och

Och yſtyria gan hynny pa ffoledd ac ynfydrwydd ydyw itti beryglu dy gorph, a gofod dy enaid yn agored (fydd werthfawrufach itti na deng-mil o fydoedd) i ddioddef yr holl goſpedigaethau echryſlon hyn, yn y bŷd hwn, ac yn y bŷd a ddaw, am ddim, am bechod ofer anfuddiol, ni wnâ leſhâd nag i enaid, nac i gorph.

PEN IV.

Am Gelwydd, yr hwn ſydd Fai arall y mae llawer yn ymroi iddo.

PEchod arall ydyw *Celwydd*, ſydd fynychaf yn canlyn Tyngu; Am hynny, *Hoſ.* 4. 2. ni gawn *dyngu a dywedyd Celwydd* wedi eu Cwpplyſu ynghŷd. Mi a wnn fod y Tyngwŷr beunyddol yn arfer o daro y rhai a wnânt gydwybod o lŵ, *Er na thyngant etto hwy a ddywedant gelwydd.* Ond yn ddiammeu y rhai ni wnânt gydwybod o lŵ, a wnânt lai Cydwybod o Gelwydd: y rhai ni phriſiant i ddianrhydeddu Duw trwy gymeryd ei Enw ef yn ofer, llai a briſiant a'r dwyllo eu Cymydog â chelwydd.

Yn agoryd y Pechod hwn mi a ddangoſaf, 1. *Beth yw Celwydd.* 2. *Pa rywogaethau ſydd o hono.* 3. *Maintioli a ffieidd-dra y pechod hwn.* 4. *Rhai Annogaethau a Rheſymmau yn ei erbyn.*

I. Am y cyntaf, *Celwydd ydyw gofod allan meddwl dŷn yn dwyllodrus yn erbyn ei ſeddwl.* Neu, *Dŷwedyd anwir trwy wybod o'i wirfodd, a'i ddiben i dwyllo.*

II. Am y rhywogaethau o Gelwyddau, Tri ydynt yn gyffredin. Sef, *Celwydd gwaſnaethgar, Celwydd cellweirgar, a Chelwydd diniſtriol.*

Celwydd gwaſnaethgar yw'r hwn ſydd yn tueddu at ragflaenu rhyw berigl, neu i beri rhyw leſhad ini ein hunain, neu ein Cymydog. Mae ſôn am lawer o'r rhai hyn yn yr Yſgrythur, megis Celwydd *Bŷd-wragedd yr Aipht.* Exod. 1. 19. Celwydd *Rahab.* Joſ. 2. 4. Celwydd Michal. 1 *Sam.* 19. 14.

Celwydd *Cellweirgar*, neu o gellwair, ydyw'r hwn a ddywedir yn unig i wneuthur un yn llawen, i ddifyrru'r amſer a'r cyfryw; fel y mae hên chwedlau gwrachiaidd am *Robin Hood, Fortunatus*, a'r cyfryw.

Celwydd *diniſtriol* yw'r hwn a ddywedir er rhyw ddrwg, i ddiben niweidiol enbydus yn erbyn ein Cymmydog.

Cweſt. *Ydyw'r holl Gelwyddau hyn yn beckadurus?*

Attcb. Ydynt.

1. Am y diweddaf, ni all neb ammeu. Pechod ydyw yn erbyn

erbyn gwirionedd yn ei natur gyffredin. A phechod yn erbyn cariad a thrugaredd o ran ei ddiben a'i ſwriad.

2. Am yr ail, ſef *Celwydd cellweirus*, nid oes fawr ammeu chwaith; canys i ddywedyd y lleiaf, Heblaw ei fod yn bechod yn erbyn gwirionedd, mae 'n anawdurol, ac yn treulio amſer gwerthfawr yn ofer, yr hwn yn hytrach a ddylid ei brynu.

3. Am y trydydd, ſef *Celwydd gwaſnaethgar*, er bod rhai yn ammeu o hono, etto mae yn eglur ei fod yn bechadurus ac yn anghyfreithlon. Canys yr hyn a wnêir yn erbyn Duw, ſydd bechod, er iddo wneuthur mowr-dda i ddŷn. Ond pob Celwydd ſydd yn erbyn Duw, canys mae ini ymdrîn ag ef yn mhob peth a wnelom, a rhaid ini oſod allan y cwbl a'r y goreu iddo ef; am hynny dywedyd dim o'i flaen ef a'n tafod, yr hyn a wyddom ei fod yn amgen yn ein Cydwybodau, yw pechu yn erbyn Duw, ſydd Dduw'r gwirionedd.

Gwrthreſ. Fe ganmolodd ac a obrwyodd Duw lawer am eu Celwyddau gwaſnaethgar.

Atteb. *Nid felly mae. Ni ddarfu i Dduw erioed ganmol na gobrwyo neb am eu celwydd.* Fe wnaeth llawer yn wir weithredoedd rhagorol trwy 'r Moddion hyn, (y rhai etto fuant well, oni bai 'r celwydd) megis *Rahab* a *Bŷd-wragedd* [illegible], ac eraill. Yn eu gweithredoedd yr oedd tyſtiolaeth fawr o'u ffydd hwynt, yn eu celwydd o'u gwendid. [illegible] ffydd hwynt a ganmolodd Duw, a'r pethau a wnaeth [illegible]id y modd y gwnaethant hwynt; canys yn hynny [illegible]fygiol, a Duw a fu drugarog wrthynt. A hynny [illegible]ogaethau y Celwydd.

[illegible]ran, ſef, *Maintioli a ffeidd-dra y pechod hwn o* [illegible]ddau o bechodau a ddibriſir yn y bŷd, ac a [illegible]redin, un o'r rhai mwyaf a ffeiddiaf ydyw; [illegible]dengys.

[illegible]*l mor llawn o wradwydd, ac na oddef y rhai ni o un pechod, rôi celwydd yn eu herbyn.*

[illegible]*le ac hwn-ddiniſtr Cymdeithas ddynol.* Canys [illegible]ſurus, neu gŷd-faſnach a all fod, lle na bo [illegible]th a ddywedant? Pa fodd y gŵyr dŷn beth [illegible], neu beth i ymddiried iddo, oni ddywed [illegible]eu gilydd Pa fodd y coelir y neb a arfero [illegible], pan ddwetto 'r gwir?

3. *Fe*

3. *Fe gyfrifir Celwydd-wŷr yn yr Ysgrythur lân ym mhlith llofruddion, Delw-addolwŷr, a phechaduriaid erchyll eraill, rhan a chyfran pa rai (heb wîr a disrifol Edifeirwch) a fydd tân uffern yn dragywydd.* Datg. 21. 8. *Ond i'r rhai ofnog a'r di-grêd a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwŷr, a'r swyn-gyfareddwŷr, a'r eulun-addolwŷr, a'r holl Gelwydd-wŷr y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi a thân a brwmstan.*

Yr ŵyf yn appelio at eich Cydwybodau chwi, oni wnaethoch chwi eich hunain lawer modd yn euog o'r pechod ffiaidd gwradwyddus hwn o Gelwydd, ond yn enwedig wrth brynu a gwerthu yn eich Marchnad. Oni ddywedasoch yn fynych wrth werthu eich Marchnad, *Mae fo'n ddâ, ie yn dda iawn, ac nid oes gwell i'w gael am arian,* pan wyddech ei fôd yn ddrŵg? Oni ddywedasoch yn fynych, *fôd y cyfryw beth yn sefyll i chwi yn hyn a hyn,* pan yn wîr y costiodd ef lai o lawer? *A darfod cynnig i chwi y cyfryw brîs am dano,* pan yn wîr nid felly yr oedd?

Annogaethau neu Resymmau yn erbyn y pechod o Gelwydd.

1. *Mae mor eglur yn erbyn llythyren y Ddeddf ac un pechod arall.* Darllennwch *Levit.* 19. 11. *Na ladrettwch ac na ddywedwch gelwydd, ac na thwyllwch bob un ei Gymydog.* Ac *Col.* 3. 9. *Na ddywedwch Gelwydd wrth eu gilydd.*

2. *Mae Celwydd yn Nôd o Blant Diafol.* Ioan 8. 44. *O'ch Tâd Diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tâd a fynnwch chwi eu gwneuthur: lleiddiad dŷn oedd ef o'r dechreuad, ac ni safodd yn y gwirionedd. Pan yw yn dywedyd Celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd; canys y mae yn gelwyddog, ac yn Dâd iddo.* Duw y Gwirionedd ydyw Duw, a'i Blant ef ydynt *Blant ni ddywedant Gelwydd.* Isa. 63 8. Fe ddywedir i Satan (*Act.* 5. 3.) *lenwi y galon i ddywedyd Celwydd. Pa'm y llanwodd Satan dy galon i ddywedyd Celwydd wrth yr Yspryd glân.*

Dywed ô Gelwyddwr, pan ddywedych Gelwydd, iaith pwy ydyw? *Mam-iaith Diafol* ydyw: Pa brŷd bynnag y bo Celwydd yn dy enau, mae 'n arwydd fod Diafol yn dy galon. Ond yn y cyfamser plentyn i bwy wytti? nid eiddo Duw, Duw 'r gwirionedd yw efe: sicer yw, mai plentyn i Ddiafol ŵytti, canys efe fydd gelwyddog a Thâd iddo. O Gyfaill, a'i nid yw ddim fôd yn blentyn Diafol? a bod dy dafod dy hun yn cyhoeddi hynny? Ni bydd hîr, os arferi y fasnach hon, hyd oni ddyger di i wared i Dŷ dy Dâd, lle y Celwyddwŷr. *Datg.* 21. 8.

3. *Ystyria gyflog y Celwyddwr ie ym mhlith dynion, yr hwn yw,*

Na choelier ef, pan ddywetto y Gwîr. Mae profiad beunyddol yn dangos, Pan ddalier un unwaith mewn Celwydd, mai anhawdd y coelir ef; ond efe a ddirmygir, fel dŷn heb goel arno.

4. *Fel y mae'r pechod hwn ynddo ei hun yn gâs gan Dduw, felly mae'n gwneuthur y nêb a'i harfero, yn gâs ac yn ffiaidd ganddo.* Dih. 6. 16. *I pethau hyn ſydd gâs gan yr Arglwydd, ie maent yn ffiaidd ganddo, llygaid beilchion, tafod celwyddog,* &c. Er bod Duw yn caſhâu ac yn ffieiddio pob pechod, etto mae rhai pechodau mwy ffiaidd ganddo nag eraill, ym mhlith y rhai *Celwydd* ydyw un. Ac *Dih.* 12. 22. *Ffiaid gan yr Arglwydd weſuſau Celwyddog.*

Oh pa fodd y dichon yſtyriaeth o'r pethau hyn weithio yn nerthol gydâ chwi i gadw cadwraeth ddŷfal arnoch eich hunain, na thorroch allan i'r pechod hwn o *Gelwydd,* ond fel y cynghora 'r Apoſtol. *Epheſ.* 4. 25. *Gan fwrw ymaith Gelwydd, dywedwch y gwîr bob un wrth ei Gymydog.*

Gwrthreſ. Rhai a wrth attebant ac a ddywedant, Nid ellir byw, o'r lleiaf ffynnu, heb ddywedyd Celwydd. Ein rhwymo ein hunain bob amſer i ddywedyd y gwir a fydd yn ddiau yn rhwyſtr mawr i'n helw a'n hynnill.

Atteb. *Ni bydd yr Elw a gaffech trwy ddywedyd Celwydd, ond ynnill bychan itti.* Canys trwy hynny yr wyt yn gwerthu dy enaid i Ddiafol; a marchnad reſynol ydyw honno, lle rhoddir yr enaid yn ychwaneg am ryw goeg ynnill, yr hon ni ellir ei had-brynu a'r holl fŷd. Fe feddwl dynion fod yr Elw hwnnw yn felus, ac yn dyfod yn hawdd i mewn, yr hwn a geir trwy Gelwydd; Ond och! pa feluſdra neu gyſſur a all fod yn yr Elw hwnnw, ſydd yn dwyn gydag ef melldith Dduw? A all dy Elw di (pettitti yn elwa 'r holl Fŷd) gyſtadlu dy golled o ffafr Duw ac Iechydwriaeth dy Enaid? Och gan hynny meddwl am y pethau hyn, a pheth bynnag yw dy Orchwyl, na fydded it a wnêl a ffordd y Celwydd. Ond os mynni fod etto yn gelwyddwr ua chyfrif byth o hyn allan, fod Duw, ond y Diafol yn Dâd itti: A gwybydd, er itti ddywedyd Celwydd wrth ddynion, na ddywed Duw mo'r Celwydd wrthit ti: Yr hwn ſydd gywir yn ei Addewidion, a ſydd gywir yn ei Fygythion. Fe ddywedodd Duw, *Y cêuid Celwyddwyr allan o'i Deyrnas ef, ac y cèuid hwynt i mewn yn y llyn Dân:* Ni ddywed Duw gelwydd wrthit, os arſeri hyn, uſſern fydd dy drigfan ath gyfran cyn ſiccred ac mai geirwir ydyw Duw